

yr Athro

Er GWELL neu er GWAETH?

Mae'r cyfrifoldeb dros gyflog ac amodau gwaith athrawon Cymru **ar ei ffordd** i Lywodraeth Cymru.

Mae UCAC yn gefnogol iawn o hyn – **pam?**

Er lles athrawon Cymru!

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cyflwyno newidiadau i'r strwythur cyflogau athrawon sydd yn caniatáu cymryd llawer mwy o benderfyniadau am gyflogau athrawon yn lleol. Cred UCAC bod y newidiadau hyn **er gwaeth**.

Dyma rhai newidiadau sydd wedi **niweidio'r** Strwythur Cyflogau Athrawon:

- Cael gwared ar y 9 pwynt cyflog – a sefydlu ystodau cyflog gydag isafswm ac uchafswm yn unig
- Rhoi'r hawl i bob ysgol yn unigol bennu pwyntiau penodol rhwng yr isafswm a'r uchafswm – gall hyn olygu anghysondeb llwyr yng nghyflogau athrawon
- Dileu'r chwe phwynt profiad gorfodol (roedd un am bob blwyddyn o brofiad yn ystod y chwe mlynedd cyntaf o weithio fel athro)
- Cael gwared ar hygludedd cyflog – golyga hyn bod hawl gan ysgol ddewis talu llai i athro nag oedd yn ennill gynt mewn ysgol arall
- Gwneud tâl yn ôl perfformiad yn statudol ers Medi 2014
- Peidio â chaniatáu codiad cyflog chwyddiant awtomatig i bob athro; yn hytrach, cyflwyno codiad cyflog cyfartalog. Golyga hyn gallai rhai dderbyn llai na'r cyfartalog (neu ddim) ac eraill dderbyn mwy.

Mae datganoli'n cynnig cyfle i ni amddiffyn athrawon Cymru trwy:

- **sicrhau tegwch** i bob athro yng Nghymru o fewn cyfundrefn genedlaethol
- **osgoi loteri cod post** am gyflog ac amodau gwaith



- **ddiogelu** athrawon Cymru rhag rhagor o newidiadau niweidiol i'r strwythur cyflogau


Mae gan UCAC **blynyddoedd o brofiad** o drafod materion cyflog ac amodau gwaith wyneb i wyneb gydag Adran Addysg San Steffan a'r School Teachers' Review Body. UCAC yw'r **unig undeb** gyda Swyddogion o Gymru'n paratoi tystiolaeth ac yn mynychu'r cyfarfodydd allweddol hyn am gyflog ac amodau gwaith.

Croesawn yr her o sefydlu cyfundrefn genedlaethol, deg, tryloyw, i **ddiogelu** hawliau cyflog ac amodau gwaith athrawon Cymru.

Ry'n ni'n barod am y newid a'r her – dewch gyda ni!

Am fwy o wybodaeth, ewch i wefan UCAC neu anfonwch ebost at ucac@ucac.cymru

Nabod eich Undeb!



Magwyd Josh ym mhentref Mynachlog-ddu ar odre mynyddoedd y Preseli. Ar ôl mynychu Ysgol y Preseli, astudiodd Saesneg ym Mhrifysgol Aberystwyth, gan raddio yn 2013. Mae nawr yn Athro Saesneg yn Ysgol Gyfun Penfro, ac newydd gwblhau ei gyfnod ANG.

Hoff fwyd ar nos Wener: *Ar ôl wythnos dda, efallai spaghetti bolognese gyda gwin coch. Ar y llaw arall, bydd angen pizza a G&T ama i ar ddiwedd gwrs gyda blwyddyn 9...*

Profiad gorau fel athro eleni: *Disgybl Blwyddyn 12 yn dweud wrthyf i ei bod hi am astudio Saesneg ym Mhrifysgol Caerdydd oherwydd ei bod hi'n mwynhau'r pwnc gymaint yn y dosbarth.*

Profiad gwaethaf fel athro eleni: *Cwmpo yn y dosbarth yng nghanol cael fy arsylwi gan ERW (wir!)*

Hyd y daith i'r ysgol (milliroedd ac amser): *25 munud / 14 milltir.*

Cinio yn yr ysgol: *Pot noodle. Mae'n hawdd i farcio a bwyta yr un amser!*

Un peth hoffwn i newid am y proffesiwn: *Marcio! Dyw e byth yn gorffen! Mae angen i rywun o'r Adran Wyddoniaeth greu robot sydd yn ei wneud yn awtomatig!*

Cymraeg Ail Iaith: Medi 2017

Mae dyddiad cychwyn y gymhwyster newydd yn prysur agosáu, ac mae Cymwysterau Cymru wedi bod yn cynnal cyflwyniadau min nos ym mis Ionawr.

Hoffai swyddogion UCAC dderbyn adborth oddi wrth aelodau sydd wedi mynychu'r cyflwyniadau hyn.

Diolch yn arbennig i Steve Monk, Pennaeth yr Adran Gymraeg yn Ysgol Uwchradd y Trallwng, am ddanfôn "critique" treiddgar o'r fanyleb a'r asesiadau enghreifftiol a oedd ar wefan CBAC. Efallai mai ei brif bryder yw'r ffaith nad oes haenau i gael yn y fanyleb newydd, pan oedd 79% o'r ymarferwyr a holwyd ar gyfer yr ymgynghoriad wedi cefnogi cynnwys haenau yn y gymhwyster. Er mwyn cynnal a chodi cymhelliant ein dysgwyr Cymraeg ifanc, rhaid cydnabod cyrhaeddiant ar bob lefel.

Cysylltwch â rebecca@ucac.cymru neu phil@ucac.cymru

Bwrdd Golygyddol

Llywydd Cenedlaethol: Gwenno Wyn

Is-Lywydd: Phil Higginson

Ysgrifennydd Cyffredinol: Elaine Edwards

Cydylynydd Yr Athro: Rebecca Williams

Nid yw cynnwys Yr Athro o angenrheidiwydd yn farn swyddogol UCAC.

Os hoffech gyfrannu at y cylchgrawn hwn, mae croeso i chi anfon unrhyw syniadau neu erthyglau at: Prif Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU Ffôn: 01970 639950, ucac@ucac.cymru, www.ucac.cymru

Croesewir hefyd unrhyw awgrymiadau, syniadau neu sylwadau am Yr Athro.



“Mae codi safonau yn ein hysgolion yn golygu buddsoddi yn y proffesiwn dysgu.”

Clywch, clywch! Meddai pawb rwy'n sicr, yn enwedig y “buddsoddi!” Nid fy ngeiriau i ond geiriau'r Llywodraeth wrth drafod Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon.

Bydd rhai ohonoch yn cofio i'r Athro John Furlong ein annerch yng Nghynhadledd UCAC nôl yn 2015 yn dilyn cyhoeddi ei weledigaeth am hyfforddi athrawon y dyfodol yn yr adroddiad Dysgu Athrawon Yfory. Bellach mae'r Llywodraeth wedi dechrau gweithredu ar yr argymhellion hyn.

Felly, sut yn union mae'r Llywodraeth yn gobeithio gwreiddu'r datganiad uchod? I'w dyfynnu, rhagwelir gwneud hyn trwy:

- ddenu'r ymgeiswyr gorau posibl i'r proffesiwn.
- gynnig iddynt yr addysg a'r hyfforddiant cychwynnol i athrawon gorau posibl.
- gynnig cymorth parhaus fel y gall athrawon ddatblygu a diweddarau eu hunain drwy gydol eu gyrfaoedd.

Sylwch, dim sôn am arian!

Yn gryno, trwy ddilyn argymhellion Yr Athro Furlong bydd Addysg Gychwynnol Athrawon yn golygu rôl gryfach i ysgolion, rôl gliriach i Brifysgolion a gwell cysylltiadau rhwng y ddau.

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod y bydd angen i ysgolion:

- dderbyn hyfforddiant ac adnoddau i ysgwyddo'r cyfrifoldebau yma
- fod yn barod i newid eu diwylliant fel yr ystyrir bod cymryd rhan mewn Addysg Gychwynnol Athrawon yn un o'u cyfrifoldebau 'craidd.'

Ychydig iawn o gig sydd gennym ar y funud, ond gellir gweld o'r uchod i ba gyfeiriad mae pethau'n symud. Wrth reswm mae llawer o hyn yn gwneud synnwyr OND rhaid gochel na fydd hyn yn ychwanegu at lwyth gwaith athrawon. O weithredu'r argymhellion rhaid mynnu bod yr “hyfforddiant a'r adnoddau” a'r arian yn ddigonol.

Dysgu hanes i'n plant – pa hanes?

Dyma gwestiwn sylfaenol a hollbwysig a ddylai gael sylw manwl pawb sydd ynghlwm â datblygu cwricwlwm newydd ôl-Donaldson ar gyfer ysgolion Cymru. Nid oes raid pwysleisio wrth ddarllenwyr *Yr Athro* pa mor dyngedfennol yw natur yr hanes a ddysgir o ran datblygu ymwybyddiaeth iach a chytbwys o Gymreictod; wedi'r cyfan, 'tloedi cenedl yn ysbrydol ydyw ei thorri oddi wrth ei gorffennol'.

Gan ddilyn argymhellion adroddiad yr Athro Donaldson, *Dyfodol Llwyddiannus*, bydd y cynllun gweithredu a fabwysiadwyd gan y llywodraeth yn creu cwricwlwm unigryw i Gymru a fydd yn wahanol iawn o ran ei strwythur i'r un presennol ac i'r un yn Lloegr.

Yn wahanol o ran ei strwythur ond beth am y cynnwys? A fydd hyn yn sicrhau y rhoddir i hanes Cymru (a'r dimensiwn Cymreig mewn meysydd eraill) le creiddiol a naturiol oddi mewn i'r strwythur hwnnw? Mae peryg mawr na fydd. Rhaid cofio mai tystiolaeth ddigamsyniol y gweithgor dan gadeiryddiaeth Dr Elin Jones a gyflwynodd yr adroddiad *Y Cwricwlwm Cymreig, stori a hanes Cymru* ym Medi 2013 yw fod hanes Cymru naill ai'n ymylol neu'n cael ei anwybyddu mewn llawer iawn o ysgolion. 'Profiad y tasglu', meddai'r adroddiad 'yw bod nifer o ddysgwyr yn ysgolion Cymru yn dysgu mwy am hanes Lloegr nac am hanes eu bro a'u gwlad eu hunain'.

Dyna'r sylfaen annigonol y bydd yr Ysgolion Arloesi yn adeiladu arno. Ymddengys nad oes unrhyw arweiniad gan y Gweinidog Addysg iddynt ar yr angen i wyrdroi'r sefyllfa cwbl anfoddfaol hon. Yn wir, mae tystiolaeth bod pethau wedi gwaethgu. Nododd adroddiad gan RHAG yn Hydref 2014 bod nifer cynyddol o ysgolion yn defnyddio adnodd



Conglfeini/Cornerstones, adnodd a gynlluniwyd ar gyfer ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol yn Lloegr felly "ethos Seisnig . . . yw craidd y pecyn, ac mae'n anaddas i ysgolion Cymru. Er bod peth cyfeirio at hanes Cymru, mae'r pwyslais ar orsedd ac arferion Lloegr".

Mae angen arweiniad cadarn gan yr Ysgrifennydd Addysg er mwyn

- sicrhau y bydd y profiad Cymreig yn ganolog i bob Maes Dysgu a Phrofiad
- ailstrwythuro rhaglenni astudio hanes fel bod lle creiddiol i hanes Cymru fel na chaiff ei ystyried mwyach fel atodiad i 'hanes go iawn'
- sefydlu gweithgornau o ymarferwyr ac arbenigwyr i ddatblygu'r rhaglenni hyn ac i adolygu'r angen am adnoddau digonol
- creu cyfleoedd ar gyfer ymgynghori trwyadl gyda'r proffesiwn a chydag eraill sydd â diddordeb
- sicrhau cyllid digonol fel bod adnoddau dysgu aml-gyfyngol ar gael ar gyfer ysgolion, yn y Gymraeg a'r Saesneg, a fydd yn cymharu'n ffafriol efo'r hyn fydd ar gael i ysgolion Lloegr

Os na chawn yr ymyrraeth a'r arweiniad yma, yna mae'n debygol iawn na fanteisir ar y posibiladau cynhyrfus a chreadigol a gynigir gan weledigaeth *Dyfodol Llwyddiannus* i greu cwricwlwm gwirioneddol unigryw a fydd yn rhoi i ddisgyblion Cymru ymwybyddiaeth ddeallus o'u hunaniaeth fel sylfaen ar gyfer bod yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus o'r byd mawr o'u hamgylch.



Cymwysterau Cymru

Dyma ran o lythyr mae Christopher Evans, aelod gweithgar o UCAC, wedi ei anfon at Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg: "Rwyf yn Bennaeth Seicoleg yn Ysgol Morgan Llwyd Wrecsam, ac wedi dysgu cwrs Seicoleg TGAU CBAC ers 2009 (a gweithio fel arholwr allanol i'r cwrs). Yn anffodus, penderfynodd CBAC y bydden nhw'n rhoi'r gorau i gynnyg y cwrs blwyddyn ddiwethaf (dyfarniad olaf yn 2018). Y rheswm am hyn oedd y niferoedd cymharol fach o ganolfannau a oedd yn cymryd y pwnc, sef 36 (17 yng Nghymru, gyda 9 yn ei gymryd trwy'r Gymraeg, gan gynnwys Ysgol Gyfun Gwynllyw, Ysgol Llanhari ac eraill.)

Roeddwn i'n hynod o siomedig i glywed hyn, gan fy mod i wedi adeiladu adran Seicoleg yn yr ysgol a ddechreuodd gydag 8 disgybl TGAU mewn cwrs hwymos, i 80 ymgeisydd TGAU. Mae Seicoleg yn bwnc cyfoes, gwyddonol, sy'n hybu meddwl yn feimiadol a dealltwriaeth o'r natur ddynol...hynod o bwysig yn ein byd ni heddiw buaswn i'n dweud..."

Fel mater o egwyddor, ni ddylai Cymwysterau Cymru gynnig manylebau trwy gyfrwng y Saesneg heblaw eu bod nhw hefyd ar gael yn y Gymraeg!

Os ydych chi yn gwybod am enghreifftiau eraill o hyn, cysylltwch ag UCAC: ucac@ucac.cymru

Adnoddau • Adnoddau • Adnoddau

Ydych chi'n chwilio am adnoddau, gweithgareddau a syniadau ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd? Mae gwefan Adnoddau Addysgol CBAC yn cynnwys amrywiaeth eang o adnoddau i gefnogi addysgu a dysgu'r cymwysterau. Ewch at <http://adnoddau.cbac.co.uk> i gael mynediad diderfyn, rhad ac am ddim at yr adnoddau sydd yno ar eich cyfer.



Dyma rai enghreifftiau o adnoddau newydd sydd ar y wefan:

CA4 – Gwyddoniaeth Gymhwysol - e-Lyfr

Adnodd i gefnogi addysgu TGAU Gwyddoniaeth Gymhwysol (dwyrad). Mae'r e-lyfr wedi ei baratoi mewn arddull sy'n addas i ddysgwyr gan ymddrin â chynnwys y cwrs Gwyddoniaeth Gymhwysol (dwyrad). Mae'r e-lyfr hefyd yn cynnwys ymarferion a chwestiynau hunanasesu i atgyferthu'r dysgu.



CA4 – Addysg Grefyddol - Cynlluniau Dysgu

Dyma enghraifft o Gynllun Dysgu sy'n cynnig arweiniad wrth addysgu am un o grefyddau'r byd yn Uned 1 TGAU Astudiaethau Crefyddol, Rhan A a B Islam (addysgu o 2017). Ceir yma awgrymiadau ar gyfer addysgu topigau yn greadigol gyda chysylltau pellach at adnoddau perthnasol.



CA4 – Daeryddiaeth – Ecosystemau

Mae'r adnoddau rhyngweithiol yma yn cefnogi addysgu Daeryddiaeth TGAU CBAC (addysgu o 2016). Maent yn cefnogi addysgu am brosesau a rhyngweithiadau o fewn ecosystemau ac yn cynnwys ymarfer penderfynu.




CA5 - Sbaeneg / Ffrangeg / Almaeneg – Astudio Ffilm

Gweithgareddau rhyngweithiol gwranddo, darllen ac ysgrifennu ar gyfer addysgu dosbarth llawn neu gall y dysgwyr eu defnyddio yn annibynnol. Mae'r adnoddau yn rhoi sylw i fanylebau TAG UG/Safon Uwch Ffrangeg, Sbaeneg ac Almaeneg, Uned 2 Adran Ch, astudio ffilm (addysgu o 2016).



CA5 – Busnes - Dadansoddi busnes a strategaeth

Nodiadau i gefnogi addysgu'r cynnwys newydd ar gyfer TAG U2 Uned 3. Gall athrawon neu ddysgwyr ddefnyddio'r nodiadau fel cyflwyniad i gynnwys y cwrs. Dylid eu defnyddio mewn perthynas ag adnoddau eraill er mwyn sicrhau bod y dysgwyr yn ymddrin â holl agweddau'r topigau a nodir yn y fanyleb (addysgu o 2015).



CA5 – Addysg Gorfforol – Addysg Gorfforol Blwyddyn 1 Safon Uwch – gyda gemau tîm

Datblygwyd yr adnodd yma er mwyn arddangos dulliau cyfannol o ddysgu. Mae'r adnodd yn eich tywys drwy dymor/gêm gan ganolbwyntio ar y dulliau cysylltu sydd yn y fanyleb Safon Uwch mewn perthynas â gem.



Cynhadledd Flynyddol UCAC

31 Mawrth – 1 Ebrill 2017
Neuadd Gregynog, Y Drenewydd

gyda
Kirsty Williams AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
 (10 o'r gloch, dydd Sadwrn 1 Ebrill)

Seiynau Ymylol:
 Cwricwlwm newydd i Gymru: Y camau nesaf
 Datganoli cyflog ac amodau gwaith: Er gwell neu er gwaeth?
 Cynllunio'r gweithlu addysg: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg

Nos Wener: Swper y Gynhadledd ac adloniant gan Raffdam

AM DDIM i Aelodau UCAC
 Am ragor o wybodaeth: 01970 639 950 / ucac@ucac.cymru

Cyhoeddwr Adnoddau Addysg
www.aber.ac.uk/caa

caa
 ABERYSTWYTH
 35

... yn helpu disgyblion ac athrawon gyda'u gwaith, ac yn annog plant i fwyhau darllen!

CAA, Prifysgol Aberystwyth, Plas Gogerddan, Aberystwyth SY23 3EB

01970 622128 | @caacymru | [facebook.com/CAACymru](https://www.facebook.com/CAACymru)
caa-archeb@aber.ac.uk

Dyma rai o'r adnoddau sydd ar y gweill ar hyn o bryd:

- Llywodraeth a Gwleidyddiaeth
- Astudio'r Cyfryngau
- Deunydd Astudio Synoptig
- Drama

Dilynwch adnoddau addysgol CBAC ar [@adnoddau_cbac](https://twitter.com/adnoddau_cbac)